Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ein cyf: MP3494FQ

Cyngor Gwynedd
Cibyn Industrial Estate
Caernarfon
LL55 2BF

Dyddiad: 06/02/2026

Annwyl Syr/Madam,

Newidiadau i'ch trwydded

Cyfeirnod y drwydded: EPR/ MP3494FQ
Gweithredwr: Gwynedd County Council
Cyfleuster: Llwyn Isaf Landfill & Transfer Station

Mae'n ofynnol i ni gynnal adolygiadau cyfnodol o drwyddedau o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Rydym yn manylu ar ein dull rheoleiddio, a chwmpas cyffredinol yr adolygiadau hyn, yn ein Nodyn Cyfarwyddyd Rheoleiddio Rhif 12 – Adolygiadau cyfnodol statudol o drwyddedau. Mae angen cynnal adolygiadau o drwyddedau i wirio a ydyw amodau trwyddedau yn parhau i adlewyrchu safonau priodol ac yn parhau i fod yn ddigonol, yng ngoleuni profiad a gwybodaeth newydd, ac i sicrhau bod trwyddedau yn parhau i fod yn berthnasol wrth i dechnegau ddatblygu. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys safleoedd tirlenwi a roddodd y gorau i dderbyn gwastraff cyn Gorffennaf 2001, neu a gaeodd pan ddaeth y gyfarwyddeb tirlenwi i rym. Mae ein nodyn briffio, sydd wedi'i gynnwys ynghyd â'r llythyr hwn, yn egluro'r prif newidiadau y gallwch eu disgwyl i'ch trwydded, a'r rheswm dros y gwaith adolygu hwn.

Bydd ein Gwasanaeth Trwyddedu yn cynnal amrywiad a gychwynnwyd gan y rheoleiddiwr, a fydd hefyd yn cynnwys cydgrynhoi eich trwydded. Byddwn yn anfon atoch gopi drafft o'r newidiadau i'ch trwydded, a fydd yn cael ei ddangos mewn hysbysiad amrywiad, fel y gallwch wneud sylwadau ar y newidiadau.

Er bod gennym y gallu i godi tâl arnoch chi fel y gweithredwr am y gwaith hwn, ni fyddwn yn codi tâl arnoch chi yn yr achos hwn. Byddwch yn ymwybodol nad yw hyn yn atal CNC rhag codi tâl am adolygiadau o drwyddedau yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddem yn rhoi gwybod i chi ymlaen llaw pe byddem yn cynnal adolygiad arall o'ch trwydded yn y dyfodol. Os bydd angen cynnal unrhyw waith ychwanegol ar eich trwydded, yn ogystal â'r gwaith yr ydym yn ei wneud, rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl, a bydd angen cyflwyno cais. Codir tâl am y cais hwn ar y gyfradd briodol a nodir yma: Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein taliadau.

A fyddech cystal â chadarnhau ym mha iaith yr hoffech gael gohebiaeth ysgrifenedig gennym ni? Cymraeg / Saesneg

A fyddech cystal â chadarnhau ym mha iaith yr hoffech siarad â ni dros y ffôn neu yn ystod cyfarfodydd wyneb yn wyneb? Cymraeg / Saesneg

Yr eiddoch yn gywir

Sarah Walton
Uwch Swyddog (Tirlenwi Caeedig)

Ffôn: 03000 655 023
E-bost uniongyrchol: sarah.l.walton@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ymateb yn Gymraeg heb i hynny arwain at oedi.

Correspondence in Welsh is welcomed, and we will respond in Welsh without it leading to a delay.